# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL LLANDYFAELOG COMMUNITY NEWSLETTER



# CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Hydref Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf erbyn 1af Rhagfyr 2019.

Welcome to the Autumn Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition by 1st December 2019.

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor | Council Meeting Dates |
|---|---|
| 3 Hydref 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 3 October 7.30pm, Llandyfaelog Hall |
| 7 Tachwedd 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 7 November 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

## Cofio D-Day Remembrance

Marciwyd 75 blwyddyn ers Glaniadau D-Day gyda seremoni yn Tir Gof o dan ofal Parchedig Trevor Copeland. Ymunodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog, y Cyng Rheinallt Jones a aelodau arall o'r Cyngor gyda aelodau Lleng Brydeinig Brenhinol Cydweli ar gyfer y seremoni.

The 75th anniversary of the D-Day landings were marked in a ceremony under the care of Reverend Trevor Copeland at Tir Gof. Community Council Chairman, Cllr Rhinallt Jones, and other Councillors joined members of the Kidwelly Royal British Legion for the Ceremony.





## Cystadleuaeth Gardd Gymunedol 2019 (lluniau – Paul Temple)

Enillwyd saethfed Gystadleuaeth Gardd flynyddol Cyngor Cymuned Llandyfaelog gan Mr a Mrs Gravelle, Fforest Uchaf, Pontantwn. Derbyniwyd Mr a Mrs Gravelle Tarian Dennis Davies wrth Gadeirydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog, Y Cyng Rheinallt Jones mewn seremoni a gynhaliwyd yn y Llew Coch, Llandyfaelog.

Enillwyd Adran Gardd Llysiau gan Fforest Uchaf hefyd gyda 13 Ffrwdwen, Cwmffrwd yn ail.

Yn yr adran Gardd Blodau Mawr ennillwyd Ysgubor Hen, Llandyfaelog gyda Pentywyn, Pentrepoeth yn ail.

Enillwyd Adran Gardd Blodau Bach gan Ael y Fro, Cwmffrwd gyda 4 Bro Pedr, Llandyfaelog yn ail.

Ennillwyd yr adran gardd mewn blychu cyntaf gan Llygaid yr Efail, Upland Arms.

Mr Mike Rees o Cydweli oedd beirniad eleni a wnaed pob gardd creu argraff fawr arno. Ein llongyfarchiadau i bawb cafwyd ei enwebi.

## 2019 Community Garden Competition (photos – Paul Temple)

The seventh annual Llandyfaelog Community Council Garden Competition was won by Mr and Mrs Gravelle of Fforest Uchaf, Pontantwn. Mr and Mrs Gravelle received the Dennis Davies Shield from Llandyfaelog Community Council Chairman, Cllr Rheinallt Jones at a Ceremony at the Red Lion, Llandyfaelog.

The Best Vegetable Garden section was also won by Fforest Uchaf, with 13 Ffrwdwen, Cwmffrwd second.

The Large Flower Garden Section was won by Ysgubor Hen, Llandyfaelog with Pentywyn, Pentrepoeth second.

The Small Flower Garden Section was won by Ael y Fro, Cwmffrwd with 4 Bro Pedr, Llandyfaelog second.

The inaugural container garden section was won by Llygaid yr Efail, Upland Arms.

Mr Mike Rees of Kidwelly was this year's judge and was very impressed by the quality of all the gardens, our congratulations to everyone who was nominated.

**<u>Y Gardd Gorau a Gardd Llysiau Gorau 2019 / The Best Garden and Best Vegetable Garden 2019</u>**



**Fforest Uchaf, Pontantwn**


Fforest Uchaf
Gravelle





Y gardd mewn blychau gorau / The best container garden



**Llygaid yr Efail, Upland Arms**



**Y gardd flodau bach gorau / Best small flower garden**




**Ael y Fro, Cwmffrwd**




SIED
MAMGU

**Y gardd flodau mawr gorau / The best large flower garden**



**Ysgubor Hen, Llandyfaelog**



**<u>Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall</u>**

**<u>Dyddiad am y dyddiadur – Noson Rasus yn y Neuadd<br>Nos Wener 22il Tachwedd!</u>**

**<u>Date for the diary – Races evening at the Hall<br>Friday 22nd November!</u>**




Clwb 100 Club

Medi 2019 / September 2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1af / st | £30 | 41 | Mike Phillips |
| 2il /nd | £20 | 35 | Sarah Withers |
| 3ydd / rd | £10 | 88 | Meinir Davies |

**Eglwys Sant Maelog, Llandyfaelog**
**St Maelogs Church, Llandyfaelog**

Cynhaliwyd te hufen llwyddiannus iawn yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog ar y 4ydd Awst i godi arian ar gyfer Eglwys Sant Maelog, Llandyfaelog. Darparwyd adloniant gan Paul a Wendy Temple. Diolch yn fawr i bawb a helpodd i drefnu a chefnogwyd y digwyddiad hwn.

A very successful cream tea was held at Llandyfaelog Community Hall on the 4th August to raise funds for St Maelogs Church, Llandyfaelog. Entertainment was provided by Paul and Wendy Temple. Many thanks to everyone who helped organise and supported this event.




Push bar to

# Sioe Llandyfaelog Show

Wel, am ddiwrnod fythgofiadwy arall yn Sioe Amaethyddol Llandyfaelog ar 31ain Awst 2019. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi y sioe eleni eto boed wrth arddangos stôc, neu arddangos cynnyrch eich gwaith yn y babell fawr - gan sicrhau safon uchel iawn ym mhob gystadleuaeth.

Diolch yn ogystal i lywydd y dydd Mr Gareth Thomas a'i wraig Linda am eu cefnogaeth diflino a'i rhodd hael iawn i'r sioe.

Diolch i holl stondinau crefft, stondinau busnes a noddwyr am eich cefnogaeth parhaol.

Once again it was one of the most memorable days at Llandyfaelog Agricultural Show held on the 31st August 2019! Thank you very much to all exhibitors for their continued support ensuring another successful show day - with high standards seen throughout all competitions.

Thank you also to our Show President Mr Gareth Thomas and his wife Linda for their dedicated and lifelong support to our show; and also for their generous donation to our show.
Thank you also to our craft stalls, trade stands and sponsors for their ongoing support.


DV16
OPK
ARWERTHWYR
DAI LEWIS


DV16
OPK
ARWERTHWYR
DAI LEWIS



**CAPEL PENYGRAIG**
**CROESYCEILIOG**

# CYNGERDD

## NOS SUL 6 HYDREF 2019
## am 6.30yh

***ARTISTIAID:***

## CÔR TONIC
## LUKE REES IWAN THOMAS
## DONIAU'R FRO
## yng ngofal Geraint Rees

**LLYWYDD: Y Bnr HUW JOHN, PENIEL**

**TOCYNNAU £8/** Plant Ysgol am ddim
ar gael wrth aelodau Capel Penygraig,
Siop y Pentan Caerfyrddin neu Meinir 07399 355790

**ELW AT ŴYL GERDD DANT**
**LLANELLI A'R CYLCH 2019**



**CROESO CYNNES I BAWB**

Cwmffrwd Womens' Institute

# ANNUAL OPEN EVENING

Floral Arrangement Demonstrations by the Award Winning "Pamela John"

## "Autumn Moods"



Tuesday 8th October 2019

7.00pm  St Anne's Church Hall

Entry £5

(Includes Raffle and Refreshments)

Eisteddfod

**Eisteddfod yr Urdd**
**Sir Gaerfyrddin**
31/05-05/06/2021

## Pwyllgor Apêl Llanishmael  Cymunedau Glanyfferi a Llandyfaelog

Yn 2021 daw Eisteddfod Yr Urdd nôl i Sir Gaerfyrddin. Mae'r eisteddfod yn un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop, ac yn cynnig cyfleoedd diwylliannol arbennig i blant ac ieuenctid Cymru,  yn siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd.

Mae angen codi £300,000 o fewn Sir Gâr i gynnal yr Eisteddfod, a llwyfannu gweithgareddau poblogaidd fel y Pasiant Meithrin, Sioe Cynradd, Sioe Ieuenctid, sy'n rhoi cyfle unigryw i blant ac ieuenctid ein sir ni i berfformio ar lefel broffesiynol.

Er mwyn helpu ariannu'r Eisteddfod, mae'r Urdd wedi creu rhwydwaith o bwyllgorau apêl ledled y sir.  Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llandyfaelog ar 12 Mehefin, ffurfiwyd ein pwyllgor lleol ni - Pwyllgor Apêl Llanishmael o dan gadeiryddiaeth Carys Thomas.  Targed cymunedau Llandyfaelog a Glanyfferi yw codi £6,000 tuag at yr Eisteddfod.

Mae'r gwaith o godi aria wedi dechre -  ar noson heulog llawn hwyl a sbri ar 5ed Gorffennaf, codwyd £540 mewn Helfa Drysor a Barbiciw.  Dyma ddechre gwych ar y gwaith – 17 car yn cymryd rhan, a Neuadd Llandyfaelog dan ei sang wedyn yn ystod y Barbiciw.  Diolch yn fawr iawn i bawb gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Gyda dros £5,000 yn weddill i'w godi yn y gymuned dros y 18 mis nesaf, byddem yn falch o gefnogaeth sefydliadau, mudiadau neu unigolion lleol.  Os oes gennych chi syniadau sut i godi arian, byddem yn falch iawn o glywed oddiwrthych!

Mae croeso cynnes i unrhywun sydd â diddordeb i ymuno â'r Pwyllgor lleol.  Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Fercher 11eg Medi am 7.30 yn Neuadd Y Llew Coch, Llandyfaelog.  Ein digwyddiad nesaf i godi arian yw **Noson Bingo yn Neuadd Glanyfferi ar nos Wener 4ydd Hydref**.  Rhowch nodyn yn eich dyddiadur nawr, a dewch i ymuno yn yr hwyl!  Yn y cyfamser, cofiwch ddilyn ein tudalen Facebook – Pwyllgor Apêl Eisteddfod 2021 – Llanishmael.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Kim Lloyd Jones kimmorgans@hotmail.com, Cadeirydd, Carys Thomas clthomas@carmarthenshire.gov.uk neu'r Trysorydd, Shan Rees grahamandshanrees@gmail.com

urdd.cymru/eisteddfod
0345 257 1613

Eisteddfod

# Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin

31/05-05/06/2021

**LLANISHMAEL APPEAL COMMITTEE – FERRYSIDE AND LLANDYFAELOG COMMUNITIES**

In 2021 the Urdd Eisteddfod will return to Carmarthenshire. The Eisteddfod is one of Europe's largest travelling festivals, and will offer unique and exciting cultural opportunities to the young people of Carmarthenshire and Wales during Whitsun week 2021.

Carmarthenshire needs to raise £300,000 towards the costs of staging the festival and its popular fringe events e.g. Nursery Schools Pageant, Primary Schools Show, Youth Show and the Opening Concert. Children and young people from all over Carmarthenshire will take part in these events, giving them an excellent opportunity to take part in large-scale productions, working with professionals from the world of theatre and music.

The Urdd has created a network of local appeal committees throughout the county to help meet the £300,000 financial target. At a public meeting held on 12 June in Llandyfaelog, our local committee was formed with a target of raising £6,000. Carys Thomas of Llandyfaelog was elected as Chairperson.

The fundraising has already begun - in a fun-filled sunny evening on 5th July, £540 was raised during a Treasure Hunt and BBQ. 17 cars took part, and it was good to see Llandyfaelog Hall so full of people enjoying a bbq! Many thanks to all who contributed to the success of the evening.

With over £5,000 left to raise over the next 18 months, we would greatly appreciate the support of the local community to meet our appeal target. Our next meeting will be on Wednesday 11th September at 7.30 p.m in The Red Lion, Llandyfaelog – all welcome! Our next fundraising event will be Bingo, at Ferryside Hall on Friday 4th October. Make a note in your diary now, and in the meantime, follow us on Facebook – Pwyllgor Apêl Eisteddfod 2021 – Llanishmael.

For further information, contact the Llanishmael Appeal Secretary, Kim Lloyd Jones kimmorgans@hotmail.com, Chair Carys Thomas clthomas@carmarthenshire.gov.uk or Treasurer, Shan Rees grahamandshanrees@gmail.com

**AMODAU A RHEOLAU**

- Pan gyhoeddir cystadleuaeth, rhaid i bawb sy'n dymuno cystadlu gyrraedd y llwyfan cyn i'r gystadleuaeth ddechrau. Yr olaf i'r llwyfan i gystadlu gyntaf.
- OEDRAN: Lle nodir oedran ar gyfer cystadleuaeth, e.e "dros 19", rhaid i'r cystadleuydd fod wedi cyrraedd yr oedran ar ddydd yr Eisteddfod; lle nodir "dan 19", ni ddylai cystadleuydd fod wedi cyrraedd yr oedran hwn ar ddydd yr Eisteddfod.
- LLEFARU a LLÊN: Cymraeg yn unig a ganiateir.
- CYFANSODDIADAU LLÊN: I'w danfon at yr Ysgrifennydd erbyn DYDD MERCHER, TACHWEDD 27ain, 2019. Ffugenwau'n unig ar yr ymgais. Gellir cynnwys amlen dan sêl yn nodi rhif y gystadleuaeth ac enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cystadleuydd. RHAID gwneud hynny yng nghystadleuaeth y Gadair a Thlws y Llenor Ifanc.
- CELF a THECHNOLEG: I gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn DYDD GWENER, TACHWEDD 29ain, 2019.
- LLEOL: Cyfyngedig i gystadleuwyr yn byw neu yn mynychu ysgolion dyddiol neu ysgolion Sul o fewn plwyfi Llandyfaelog, Cydweli, Llanishmael, Llangyndeyrn a Llangynnwr.
- Ni chaniateir perfformio'r un darn ddwywaith.
- Disgwylir i gystadleuwyr ddarparu copi yr un i'r beirniad a'r cyfeilydd.
- Bydd hawl gan y beirniaid i rannu, gwtogi neu atal gwobr, a bydd eu barn yn derfynol.
- Eiddo yr Eisteddfod yw hawlfraint pob cyfansoddiad.
- Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain.
- Tâl mynediad aelod o gôr ar gyfer cystadleuaeth Rhif 23 yw £1.50.

**COFIWCH AM:**

Eisteddfod Y TYMBL - Dydd Sadwrn, Medi 21ain, 2019
Ysg: Anwen Evans, 112 High St., Y Tymbl, Llanelli SA14 6HD Ffôn: 01269 833568

Eisteddfod BANCFFOSFELEN - Dydd Sadwrn, Hydref 12fed, 2019
Ysg: Davinia Harries Davies, Pantypwll, Heol y Banc, Bancffosfelen SA15 5DW Ffôn: 01269 870490

Eisteddfod PUMSAINT - Dydd Sadwrn, Hydref 26ain, 2019
Ysg: Mair Williams, Gwargors, Porthyrhyd, Llanymddyfri SA19 8DF Ffôn: 01558 650292

Eisteddfod ABERGORLECH - Dydd Sadwrn, Tachwedd 23ain, 2019
Ysg: Heulwen Francis, Pistyll Uchaf, Abergorlech SA32 7TB Ffôn: 01558 685398

**DYMUNA PWYLLGOR YR EISTEDDFOD DDIOLCH I'R CANLYNOL:**

- Cronfa Goffa Dr. Ron a Mrs Betty Rees, Oaklands, Cwmffrwd
- Cyngor Sir Gaerfyrddin £200
- Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen £329
- Cyngor Cymuned Llangyndeyrn £100
- Cyngor Cymuned Llandyfaelog £75
- Menter Gwendraeth Elli £30
- Cadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin £30

A phawb a gyfrannodd at lwyddiant Eisteddfod 2018

**CWPANAU HER YR EISTEDDFOD:**

Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimary
Cwpanau Phyllis Hughes
Cwpan Coffa John Jones
Cwpan Coffa John ac Olwen Rees, Caeralaw
Tarian Goffa John Devonald Jones
Cwpan Coffa Rayan Evans

# EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDYFAELOG

www.eisteddfodllandyfaelog.cymru

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

## Dydd Sadwrn, Rhagfyr 7fed, 2019
## yn Neuadd Llandyfaelog

LLEOL - 1:00pm    AGORED - tua 3:30pm    YR HWYR - 6:00pm

**MYNEDIAD:**
Oedolion £3
Plant Ysgol 50c

**LLYWYDDION ANRHYDEDDUS:**

PRYNHAWN: Mrs Janet Knott, Bancycapel
HWYR: Mr Ronald Thomas, Llandyfaelog

**BEIRNIAID:**

CERDD: Davinia Harries Davies, Bancffosfelen
LLEFARU: Elin Williams, Cwmann
LLÊN: Y Prifardd Idris Reynolds, Brynhoffnant
CELF: Gareth Morgan, Cwmffrwd

**CYFEILYDDION:**

AGORED: Jonathan Morgan, Y Tymbl (01269 832384)
LLEOL: Geraint Rees, Caeralaw (01267 233584)

**SWYDDOGION Y PWYLLGOR:**

CADEIRYDD: Rhiannon Roberts    IS-GADEIRYDD: Llinos Jones    TRYSORYDD: Meinir James
YSGRIFENYDDION: Kim Lloyd Jones (07771546598) a Geraint Roberts, Pengwern, Cwmffrwd, Caerfyrddin SA31 2NB geraintroberts@btinternet.com (01267 229047)

Elusen cofrestredig rhif 1109388

***Cyflwynir dwy ysgoloriaeth o GRONFA GOFFA DR. RON A MRS. BETTY REES, OAKLANDS, CWMFFRWD, sef £50 yr un i'r cystadleuydd gorau lleol dan 16 oed (a) yn yr adran gerdd a (b) yn yr adran lefaru.***
***Rhoddir CWPAN COFFA JOHN A NAN ANDERSON, TRELIMSEY a thlws i'w gadw, i'r cystadleuydd lleol ym Mlwyddyn 6 cynradd neu iau sy'n dangos yr addewid fwyaf (Cystadlaethau 1*– 4*, 27*– 29*).***
***Cyflwynir CWPAN HER i'r ysgol/adran leol uchaf ei marciau.***

**CERDD (Lleol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.* Unawd Bl. 1 a 2 neu iau | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 2.* Unawd Bl. 3 a 4 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 3.* Unawd Bl. 5 a 6 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 4.* Unawd Offeryn Cerdd Cynradd | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 5. Grŵp Offerynnol Cynradd (3-6) | CWPAN HER a £15 | £10 | £5 |
| 6. Parti Unsain dan 16 oed (4-6) | TARIAN HER a £15 | £10 | £5 |
| 7. Unawd Offeryn Cerdd Bl. 7-11 | £15 | £10 | £5 |
| 8. Unawd Bl. 7-11 | £15 | £10 | £5 |

**CERDD (Agored)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9. Unawd Bl. 1 a 2 neu iau | CWPAN | TARIAN | MEDAL | |
| 10. Unawd Bl. 3 a 4 | CWPAN | TARIAN | MEDAL | |
| 11. Unawd Bl. 5 a 6 | CWPAN | TARIAN | MEDAL | |
| 12. Unawd Bl. 7, 8 a 9 | £15 | £10 | £5 | |
| 13. Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed | £20 | £15 | £5 | |
| 14. Unawd Piano/Offerynnol dan 19 oed | £20 | £15 | £5 | |
| 15. Unawd Alaw Werin dan 19 oed | £20 | £15 | £5 | |
| 16. Unawd Sioe Gerdd dan 30 oed | £35 | £20 | £10 | |
| 17. Emyn dan 50 oed | CWPAN HER a £20 | £10 | £8 | |
| 18. Unawd dan 30 oed | £35 | £20 | £10 | |
| 19. Emyn dros 50 oed | CWPAN HER a £25 | £15 | £10 | |
| 20. Cenech i'm yr Hen Ganiadau | £40 | £25 | £15 | |
| 21. Deuawd Agored | £30 | £20 | £10 | |
| 22. Her Unawd Agored | £50 | £30 | £20 | £10 |

**23. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru**
Parti neu gôr, unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol, heb fod yn hwy nag 8 munud ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro.
*Canllawiau ar www.steddfota.org* CWPAN HER a £150 £100 £50



24. Cystadleuaeth ar gyfer mudiadau lleol - llwyfannu eitem na chymer mwy nag 8 munud
*(Cynhelir y gystadleuaeth hon tua 8 o'r gloch)* CWPAN HER a £20

25. Cystadleuaeth partïcôr ar gyfer mudiadau lleol, unrhyw leisiau, un gân, agored £20
*(Cynhelir y gystadleuaeth hon tua 9 o'r gloch)*



**26. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:** Perfformio Darn Digri'.
Oed - Agored. *Canllawiau ar www.steddfota.org* *Gwobr Goffa Dr. Ron a Mrs Betty Rees, Oaklands* £50

**LLEFARU (Lleol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27.* Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 28.* Llefaru Bl. 3 a 4 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 29.* Llefaru Bl. 5 a 6 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 30. Llefaru Bl. 7-11 | £15 | £10 | £5 |
| 31. Grŵp Llefaru/Cyflwyniad Llafar dan 16 oed | TARIAN a £10 | £8 | £6 |

**DAWNS (Lleol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 32. Dawns Bl.1-6, unrhyw gyfrwng | CWPAN | TARIAN | MEDAL |

**LLEFARU (Agored)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33. Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 34. Llefaru Bl. 3 a 4 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 35. Llefaru Bl. 5 a 6 | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 36. Llefaru Bl. 7, 8 a 9 | £15 | £10 | £5 |
| 37. Llefaru Bl. 10 ac o dan 19 oed | £20 | £15 | £10 |
| 38. Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau | £20 | £15 | £10 |
| 39. Ymgom Bl.11 ac iau | £20 | £15 | £10 |
| 40. Her Adroddiad dan 30 oed | CWPAN HER a £35 | £20 | £10 |
| 41. Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd - dros 19 oed | £30 | £20 | £10 |
| 42. Her Adroddiad - Agored | £50 | £30 | £20 |

**LLÊN**

**43. Cerdd gaeth neu rydd** (oddeutu 30 llinell): "Tonnau" CADAIR YR EISTEDDFOD
*Y gadair yn rhoddedig gan Mr Ron Jones a Mrs Kim Lloyd Jones a theulu Fferm Y Coed, Glan-y-Fferi*

**44. Tlws y Llenor Ifanc dan 25 oed:** Unrhyw ddarn o waith creadigol (barddoniaeth, stori, ysgrif, drama) heb fod dros 2,000 o eiriau. *Y wobr yn rhoddedig gan Mr Huw John, Peniel* MEDAL a £30

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45. **Englyn:** "Diffibriliwr" | £15 | | |
| 46. **Limrig** yn cynnwys y llinell: " Sa'i'n mynd i wneud hynny byth eto " | £5 | | |
| 47. **Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol:** Llythyr at Siôn Corn | TARIAN | £4 | £2 |
| 48. **Bl. 7-9 ysgolion uwchradd agored:** Llunio blog am daith | £8 | £6 | £4 |
| 49. **Bl. 10-11 ysgolion uwchradd agored:** Llunio blog am ddigwyddiad | £12 | £8 | £6 |

**CELF A THECHNOLEG (Lleol)** *(Sylwer: dyddiad cau - Dydd Gwener, Tachwedd 29ain, 2019)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 50. Celf dan 5 oed: Nyth | CWPAN | TARIAN | MEDAL |
| 51. Celf Bl. 1 a 2 neu iau: Yn yr Ogof | TARIAN | £3 | £2 |
| 52. Celf Bl. 3 a 4: Yn y Gegin | TARIAN | £3 | £2 |
| 53. Celf Bl. 5 a 6: Rasio | TARIAN | £3 | £2 |
| 54. Ffotograffiaeth Bl.1-6 (cynradd): Hydref | TARIAN | £3 | £2 |
| 55. Ffotograffiaeth Bl.7-11 (uwchradd): Patrymau Byd Natur | £10 | £6 | £4 |
| 56. Technoleg Gwybodaeth Bl.1-6: Poster - Lleihau'r defnydd o blastig | TARIAN | £3 | £2 |

## Hanes Cymunedol
## Community History

Gweler isod rhai eitemau hanes diddorol ein cymuned, gweler y wefan gymunedol am ragor o wybodaeth.

### Cwmffrwd

Ystyr Cwmffrwd yw Dyffryn y nant sy’n llifo’n gyflym. Mae wedi’i lleoli lle mae ffordd Caerfyrddin i Gydweli yn croesi Nant Cwmffrwd lle mae hen bont un bwa yn croesi’r nant. Mae’r enw’n dyddio o 1609, pan yr enw arno oedd Cwm y froode. Mae tarddiad Y Ffrwd ger Llanddarog ac yn cwrdd â’r Pibwr gyda’i tharddiad ym Mlaenpibwr (ger Capel Dewi) ym Mhont Pibwr, ac yna’n ymuno â’r Tywi gyda’i gilydd ym Mhibwrwen.

### Eglwys Santes Ann

Adeiladwyd Eglwys Santes Anne ym 1866 gan T.W.A.Thompson, ac agorodd ar 14 Awst 1868. Adeilad syml ydyw gyda chlochlofft ac organ fawreddog. Mae’r bedd cynharaf yn coffáu Gwyddel, y Capten J.M. Pentland(1800-1871) o Digoed, ac mae arno’r arysgrif canlynol: Hwyliodd y swyddog hwn yn y llong Northumberland gyda Napoleon Buonaparte i St Helena ym 1815 a dychwelodd i Loegr ym 1818.

### Llaingotten

Teras o dai yw Llaingotten o fewn Cwmffrwd. Daw’r enw o Llain-coed-ynn, sef Llain (darn cul o dir) a coed-ynn (coetir coed ynn).

### Abercyfor

Lloc wedi’i amddiffyn o Oes yr Haearn Abercyfor, gyda sylfeini adeilad oddi mewn iddo, fila Rufeinig o bosib, gyda phalmant teselog cain iawn. Credir efallai yr oedd y tri Abercyfor a Gelligeiros yn un ystâd yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

### Tŷ Cwmffrwd

Tŷ mawr Fictoraidd oedd Tŷ Cwmffrwd a adeiladwyd o gwmpas 1860 i Dr Thirlwall, Esgob Tŷ Ddewi. Llosgodd i’r llawr ym 1921.

### Capel Penygraig

Cynhaliwyd Gwasanaethau Capel Penygraig yn wreiddiol ym Mwthyn Felin Plas Gwyn yng Nghroesyceiliog. Yn gyntaf cawsant eu symud i gartref Nell Francis ym Mhentrepoeth; wedi hynny ym 1670 i le o’r enw Ffynnonloyw i’r dwyrain o’r safle presennol, tan 1703 gyda gwasanaethau yng Nglannant Chroesyceiliog, lle darparwyd mynwent. Ym 1748 symudodd eto a chafodd chwarter erw ei renti ar gyfer capel a mynwent gan dair chwaer oedd yn byw yng Ngelligaeros, Plasygraig a Chwmfelin yn ôl eu trefn. Yn fwthyn to gwellt bach yn wreiddiol, roedd yr adeilad yn barod ar gyfer gwasanaethau ar 13 Ebrill 1749, er bod plac enw’r capel yn nodi 1751 fel y dyddiad adeiladu. Gweinidog cyntaf Penygraig oedd y Parch. Milbourne Bloom.

Codwyd yr adeilad presennol ym 1834 ar gost o £367. Dathlodd Capel Penygraig ei Ben-blwydd yn 250 oed ym 1999.

Please see below some interesting historical items from our Community, please see the Community Website for more information

## Cwmffrwd

Cwmffrwd means the Valley of the swift-flowing stream. It is located where the Carmarthen to Kidwelly road crosses Nant Cwmffrwd where an old single-arched bridge crosses the stream. The name dates from 1609, when it was called Cwm y froode. The Ffrwd has its source near Llanddarog and meets the Pibwr with its source at Blaenpibwr (near Capel Dewi) at Pibwr Bridge, they then enter the Towy together at Pibwrwen.

## St Anne's Church

St Anne's Church was built in 1866 by T.W.A.Thompson, and opened on the 14th August 1868. It is a simple building with a bellcote and a grand organ. The earliest grave commemorates an Irishman, Captain J.M. Pentland(1800-1871) of Digoed, and carries the following inscription: This officer sailed in the ship Northumberland with Napoleon Buonaparte to St Helena in 1815 and returned to England in 1818.

## Llaingotten

Llaingotten is a terrace of houses within Cwmffrwd. The name derives from Llain-coed-ynn, being Llain(narrow stretch of land) and coed-ynn(woodland of ash trees.

## Abercyfor

Abercyfor Iron Age defended enclosure, within which are the foundations of a building, possibly a Roman villa, with a remarkably fine tessellated pavement. It is believed that during Roman times the three Abercyfors and Gelligeiros may have been one estate.

## Cwmffrwd House

Cwmffrwd House was a large Victorian house built around 1860 for Dr Thirlwall, the Bishop of St Davids. It burnt down in 1921.

## Capel Penygraig

Capel Penygraig Services were originally held at Felin Plas Gwyn Cottage in Croesyceiliog. First they were moved to the home of Nell Francis in Pentrepoeth; thereafter in 1670 to a place named Ffynnonloyw to the east of the current site, until 1703 with services at Glannant and Croesyceiliog, where a cemetery was provided. In 1748 it moved again and a quarter acre was rented for a chapel and graveyard from three sisters who lived at Gelligaeros, Plasygraig and Cwmfelin respectively. Originally a small thatched cottage, the building was ready for services on 13th April 1749, though the chapel name plaque dates 1751 as the date of erection. The Revd

Milbourne Bloom was the first minister at Penygraig. The current building was erected in 1834 at a cost of £367. Capel Penygraig celebrated is 250th Anniversary in 1999.